# Y Bwletin Wythnosol

# Weekly Bulletin

24/04/2023 - 28/04/2023

## Gwybodaeth bwysig am arholiadau lefel A
## Important information regarding A Levels

Stryd Y Fro
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0DT

tel. 01545 570217
Ffacs / Fax: 01545 570183
email: swyddfa@ygaberaeron.org.uk

**24ain o Ebrill, 2023**

**Annwyl riant / warcheidwad,**

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o'r trefniadau i flwyddyn 12 yn ystod y misoedd nesaf. Mae'r arholiadau Uwch Gyfrannol yn dechrau ar y **15fed o Fai** ac felly y diwrnod olaf swyddogol i flwyddyn 12 bydd Dydd Gwener yr 12fed o Fai. (Nodwch bydd gwersi BTEC yn parhau i ddisgyblion trwy'r cyfnod arholiadau). Hefyd, mi fydd athrawon pwnc dal yn cynnal gwersi pynciol tan yr arholiad Uwch Gyfrannol yn y pwnc hynny.

Disgwylir i flwyddyn 12 dychwelyd i'r ysgol ar ôl eu harholiadau Uwch Gyfrannol ac felly bydd y gwersi yn ail-ddechrau ar **Ddydd Llun y 5ed o Fehefin** i bawb. Bydd athrawon yn dechrau dysgu gwaith Lefel A blwyddyn 13.

Yn ogystal â hyn, mae yna lu o weithgareddau pwysig wedi eu trefnu i flwyddyn 12 ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Disgwylir i bob disgybl fynychu'r gweithgareddau pwysig yma. Dyma'r gweithgareddau ynghyd â'r dyddiadau:

**7fed o Fehefin** – Gweithdy yn yr Ysgol gyda Prifysgol y Drindod Dewi Sant
**3ydd, 4ydd, 5ed o Orffennaf** – Tridiau paratoi UCAS
**6ed o Orffennaf** – Taith Bagloriaeth Gymreig i Brifysgol Aberystwyth
**7fed o Orffennaf** - Mabolgampau
**10fed – 14eg o Orffennaf** – Cyfle i ennill cymhwyster Cymorth Cyntaf/CPR Lefel 3

Os yw eich mab / merch yn penderfynu peidio dychwelyd i flwyddyn 13 yna bydd angen rhoi gwybod i'r ysgol naill ai drwy lythyr neu galwad ffôn.

Yr eiddoch yn gywir,
C.Thomas
Miss C Thomas
Pennaeth y Chweched Dosbarth

Stryd Y Fro
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0DT

tel. 01545 570217
Ffacs / Fax: 01545 570183
email: swyddfa@ygaberaeron.org.uk

**24th of April 2023**

**Dear Parent / Guardian,**

I am writing to inform you of the arrangements for Year 12 students over the coming months. The AS examinations begin on the **15th of May**; therefore, the official final day for Year 12 will be Friday, the 12th of May. (Please note that BTEC lessons will continue throughout the examination period). Also, teachers will continue with subject lessons until the AS exam in that subject.

Year 12 pupils are expected to return to school following their AS exams and therefore lessons will re-start for everyone on **Monday 5th of June**. Teachers will begin to teach aspects of year 13 A Level work.

In addition to this, a range of important activities have been arranged for year 12 when they return to school. It is expected that all pupils attend the following events. Here are the activities along with the dates:

**7th June** – Workshop in school with the University of Wales Trinity Saint David
**3rd, 4th, 5th July** – UCAS Preparation Activities
**6th of July** – Workshops in Aberystwyth University – Welsh Baccalaureate
**7th of July** – Sports Day
**10th – 14th of July** – Opportunity to complete Level 3 First Aid/CPR qualification.

If your son / daughter decides not to return to year 13, the school must be informed either in writing or by telephoning the school office.

Yours sincerely,
C.Thomas
Miss C Thomas
Head of the Sixth Form

# Ganolfan Croeso a Chanolfan y Môr

## Canolfan Croeso and Canolfan y Môr



Mae'r Ganolfan Croeso a Chanolfan y Môr wedi mwynhau gŵyl Rygbi Chwarae i Bawb gan gymryd rhan mewn gweithgareddau rygbi aml-sgil yn cystadlu yn erbyn ysgolion eraill.

#inclusioninsport

Canolfan Croeso and Canolfan y Mor students enjoyed the Play For All Rugby festival taking part in multi-skilled rugby based activities competing against other schools.

#inclusioninsport



# Rygbi/Rugby







Cymerodd nifer o ddisgyblion Ysgol Aberaeron rhan mewn cystadleuaeth rygbi 7 bob ochr rhanbarth y Sgarlets lawr yng Nghaerfyrddin heddiw. Mwynheuodd y disgyblion y diwrnod yn fawr iawn.

Diolch yn fawr i Jac o Flwyddyn 13 am helpu gyda'r hyfforddi!

Many of Aberaeron School students took part in the Scarlets region Rugby 7s competition at Carmarthen today. The students thoroughly enjoyed the day.

A big thanks to Jac from year 13 for helping with the coaching!

## Bechgyn Bl 8/Boys Yr 8



Rownd gyn derfynol y Plât/Semi Final Plate:

Aberaeron 36- 7 Maes y Gwendraeth

# Beicio/Cycling

Mae Cadan Lloyd-Jones ym Mlwyddyn 7 a dros y 3 mis diwethaf wedi bod yn rasio yng Nghyfres Genedlaethol yr Icebreakers yn Felodrôm Geraint Thomas Cenedlaethol Cymru yng Nghasnewydd. Hon oedd ei ras lefel Genedlaethol gyntaf, yn erbyn bechgyn o'r un oed o bob cwr o'r DU, a'i rasio felodrom dan do cyntaf. Fe ddaeth yn 6ed mewn sefyllfa dda iawn!

Ddydd Sul (23/04) cymerodd Cadan ran yn Omniwm Cenedlaethol Ieuenctid a gynhaliwyd yn Felodrôm Caerfyrddin, sy'n cynnwys amrywiaeth o 5 ras - Rasiodd yn galed iawn, mewn rasys cystadleuol cyflym a rheolodd 4ydd gorffeniad cyffredinol cryf iawn.

Da iawn a llongyfarchiadau Cadan!



Cadan Lloyd-Jones' from Year 7 over the past 3 months has been racing in the National Icebreakers Series, on the track at the Geraint Thomas National Velodrome of Wales in Newport. This was his first National level races, against the same age boys from across the UK, and his first indoor velodrome racing. He managed a very well placed, 6th overall!

Yesterday (23/04) Cadan took part in the Youth National Omnium held in Carmarthen Velodrome, which consists of 5 races - time trial, a scratch race, elimination race, Keirin and Points. He raced very hard, in fast competitive races and managed a very strong 4th overall finish.

Well done and congratulations Cadan!

# Pêl-droed/Football



Da iawn Osian Jones a Dafydd Williams o flwyddyn 8 yn cynrychioli Ysgolion Ceredigion yn rownd gyn derfynol Ysgolion y Sir ddydd Sadwrn. Yn anffodus nid aeth y canlyniad eu ffordd ond dylai'r ddau fod yn falch o'u perfformiadau dros y tymor.

Well done Osian Jones and Dafydd Williams of year 8 representing Ceredigion Schools in the Welsh County Schools semi final on Saturday. Unfortunately the result didn't go their way but both should be proud of their performances over the season.

# NODYN Y PENNAETH

Mae tymor yr Haf yn symud yn gyflym yn barod. Mae'r cyfnod arholiadau newydd orffen i ddisgyblion Bl 9 ac mi fydd y disgyblion hynny yn symud i ddechrau eu cyrsiau TGAU ar ôl y gwyliau hanner tymor nesaf.

Mae'r arholiadau dal i ddod ar gyfer gweddill y disgyblion, ond mae'r diwrnod cyntaf yn agosáu yn gyflym - yn enwedig i ddisgyblion Bl 11 a 12. Mae hwn yn gyfle i nodi na fydd disgyblion Bl 11 yn cael cyfnod i astudio adref rhwng nawr a hanner tymor - y 'study leave' oedd yn digwydd blynyddoedd yn ôl. Mae'n ddisgwyliad statudol a chyfreithiol erbyn hyn bod disgyblion Bl 11 yn mynychu'r ysgol pob diwrnod tan ddiwedd yr hanner tymor yma. Mi fydd disgyblion yn derbyn darpariaeth lawn o wersi amserlen a gwersi paratoi at arholiad ynghyd a dechrau'r arholiadau hefyd o Fai 12fed ymlaen. Mae disgwyl bod pob disgybl yn yr ysgol ar gyfer pob diwrnod ysgol. Wedi hanner tymor, bydd gwersi paratoi at arholiad ar gael i ddisgyblion a'r disgwyliad fydd bod disgyblion Bl 11 yn mynychu'r rhain ac wrth gwrs yn mynychu arholiadau. Mae amserlen arholiadau unigol wedi rhannu gyda disgyblion Bl 10 i 13; os nad ydych wedi gweld copi o hwn, gofynnwch i'ch plentyn os gwelwch yn dda neu cysylltwch gyda'r ysgol os oes problem.

Ymhen wythnos, bydd llawer o ddisgyblion Bl 9 a'r adrannau Dyniaethau yn teithio i Wlad Pwyl am ymweliad gwerthfawr.Dymunwn bob hwyl i bawb gyda'r paratoadau at y daith.

Dymuniadau da i bawb ar gyfer gŵyl y banc.Croesawn ddisgyblion yn ôl i'r ysgol ar Ddydd Mawrth, Mai'r 2ail.

# HEADTEACHER'S NOTE

The Summer term is now well under way. The examination period has just finished for Year 9 pupils and those pupils will be moving to start their GCSE courses after the next half term holidays.

The exams are still ahead for the rest of the pupils, but the first day is fast approaching - especially for Year 11 and 12 pupils. This is an opportunity to note that Year 11 pupils will not have a period to study at home between now and half term - the 'study leave' that happened years ago. It is now a statutory and legal expectation that Year 11 pupils attend school every day until the end of this half term. Pupils will receive full provision including timetabled lessons and exam preparation lessons together with the start of the exams from May 12th onwards. All pupils are expected to be at school for every school day. After half term, exam preparation lessons will be available to pupils and the expectation will be that Year 11 pupils attend these and of course attend exams. An individual examination timetable has been shared with pupils from Years 10 to 13; if you have not seen a copy of this, please ask your child or contact the school if there is a problem.

In a week's time, many Year 9 pupils and the Humanities departments will travel to Poland for a valuable visit. We wish everyone the best of luck with the preparations for the trip.

Good wishes to all for the bank holiday. We welcome pupils back to school on Tuesday, May 2nd.